

## YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: **CYNLLUN GWEITHREDU**

### **YNGHYLCH SŴN I GYMRU**

#### **YMATEB GAN CYFOETH NATURIOL CYMRU**

##### **Crynodeb**

Rydym yn ddiolchgar am y cyfle i wneud sylwadau ar ddrafft Cynllun Gweithredu Ynghylch Sŵn Yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r cynllun gweithredu, yn enwedig ei ystyriaeth o faterion y tu hwnt i ofynion y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol.

Rydym wedi ymateb i bob cwestiwn a chynnig gwelliannau yng nghwestiwn 5.

##### **Ffurflen Ymateb I'r Ymgynghoriad**

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Cyfoeth Naturiol Cymru

E-bost: [kate.cameron@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:kate.cameron@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Rhif ffôn: 02920 466117

Eich cyfeiriad: Tŷ Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd,  
CF24 0TP

#### **1. Ydi'r drafft hwn o'r cynllun gweithredu ynghylch sŵn yn ddisgrifiad cywir o'r ffordd mae sŵn yn cael ei reoli yng Nghymru?**

Mae'r cynllun gweithredu'n disgrifio cwmpas gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd o ran sŵn.

#### **2. Ydych chi'n cytuno â'r camau arfaethedig i'w cymryd gan gyrff â chyfrifoldebau yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd nesaf?**

O ran Cam gweithredu 3.5(b) bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn lledaenu set ddata System Gwybodaeth Ddaearyddol newydd i awdurdodau lleol ym mis Tachwedd 2013 a fydd yn dangos manau gwyrdd naturiol sydd o bosib yn hygyrch ar draws Cymru yn ôl meini prawf Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i osod eu hasesiadau manau gwyrdd eu hunain ar fap sylfaen modern a fydd yn haws iddynt ei ddiweddarau. Mae uned System Gwybodaeth Ddaearyddol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddiweddarau'r set ddata wrth i ddefnydd tir newid.

Rydym yn croesawu'n gryf ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i gynnig cynllun grant i awdurdodau lleol ar gyfer gwella manau gwyrdd tawel trefol. Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i adolygu ardaloedd tawel dynodedig sydd wedi methu ag ennill statws Baner Werdd bum mlynedd wedi'r dynodiad.

O ran Cam gweithredu 3.5 (e), bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gyda deiliad is-drwydded y Faner Werdd yng Nghymru, Cadwch Gymru'n Daclus, i sicrhau bod gan feirniaid sydd wedi'u hyfforddi yng Nghymru ddealltwriaeth briodol o lonyddwch yng nghyd-destun Gwobrau'r Faner Werdd. Mae Gwobrau'r Faner Werdd yn darparu asesiad annibynnol, gan feirniaid wedi'u hyfforddi, o ansawdd y rheolaeth o fannau gwyrdd, ac felly maent yn cynnig barn ddiuedd a gwrthrychol ar a yw Man Llonydd yn debygol o gyflawni ei bwrpas.

O ran camau gweithredu 6.5(a)(ii) byddwn yn adolygu'n barhaus ein gallu i gyflawni'n cyfrifoldebau rheoleiddio sŵn. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru sedd yng ngrŵp sector sŵn Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae bellach ganddo sedd yng ngrŵp Cyswllt Cymru Gyfan ar Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Rydym yn croesawu'r cysylltiadau rhwng y prosesau cynllunio a thrwyddedu, yng Nghamau gweithredu 6.5 (b) a (c), mewn perthynas â lleoli safleoedd diwydiannol. Nid oes modd datrys pryderon cynllunio ynglŷn â lleoliad safleoedd diwydiannol trwy Drwyddedau Amgylcheddol.

### **3. Ydych chi'n meddwl bod y cynllun gweithredu drafft yn bodloni gofynion ail gam cynlluniau gweithredu sŵn dan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol?**

Credwn fod y cynllun gweithredu yn bodloni ail gam cynlluniau gweithredu sŵn fel sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb. Rydym yn cydnabod bod gofynion y Gyfarwyddeb wedi'u cyfyngu i'r crynodrefi ac felly rydym yn croesawu cwmpas ehangach y Cynllun Gweithredu Ynghylch Sŵn i Gymru, sy'n ystyried rheoli sŵn y tu hwnt i'r crynodrefi.

### **4. Ydych chi'n cytuno bod y mannau tawel posib a enwebwyd gan awdurdodau lleol yn Atodiadau C, D ac E yn cynnig mannau cymharol dawel i drigolion lleol, ac y dylid eu pennu fel mannau tawel at ddibenion y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol?**

Mae rhai o'r parciau a mannau gwyrdd mwy o faint yn ardaloedd posib gwych. Bydd hyd yn oed mannau bychan o fewn ardaloedd trefol mewnol, yn gymharol i drigolion lleol, yn fannau pwysig ar gyfer tawelwch. Rydym yn croesawu'r materion ehangach yr ystyrir eu bod yn cael effaith ar ein canfyddiad o lygredd sŵn, e.e. presenoldeb natur, diogelwch, ansawdd gweledol.

Byddai o gymorth i ardaloedd tawel dynodedig gael eu cyflwyno ar fapiau mewn perthynas â'r rhwydwaith mannau gwyrdd ehangach y bydd llawer ohonynt yn rhan ohono. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer ardaloedd tawel dynodedig llinol neu goridor, gan efallai eu bod yn llwybrau sy'n cael eu defnyddio ar y ffordd i ardaloedd llonydd eraill e.e. llefydd lled-naturiol yng nghefn gwlad agored tu hwnt i grynodrefi.

Rydym yn argymhell bod pob Awdurdod Lleol yn defnyddio dull cyffredin, cydnabyddedig i asesu'r angen dros fannau gwyrdd trefol. Nid yw'n ymddangos fod hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Byddem hefyd yn disgwyl i bob Awdurdod Lleol ymrwymo i gyflawni statws Baner Werdd ar gyfer Ardaloedd Tawel dynodedig, yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru, neu ddarparu cyfiawnhad clir dros beidio â gwneud hyn.

**5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

### **3.2 Datblygu mannau gwyrdd trefol llonydd**

Awgrymw'n fod cyflwyniad i CNC, yn debyg i'r hyn a ddarperir ar dudalennau 53-4 neu yn y blwch testun ar dudalen 54, yn cael ei gynnwys yn yr adran hon.

tud. 23, paragraff olaf. Awgrymw'n ddiwygio'r paragraff hwn fel a ganlyn i adlewyrchu sefydlu CNC:

"Cafwyd argymhelliad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, cyn creu CNC, na fydd unrhyw berson yn byw'n bellach na 300 metr o'r man gwyrdd naturiol agosaf. Mae hyn yn cyfateb yn fras i daith chwe munud ar droed, a chafodd ei fabwysiadu'n darged swyddogol yn *Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol*<sup>34</sup> a gyhoeddwyd yn 2005. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn argymhell arwynebedd o 0.25 hectar o leiaf, ac yn credu y dylid darparu o leiaf 0.25 hectar o dir gwyrdd naturiol hygyrch am bob mil o bobl gan ddilyn system o haenau ar gyfer safleoedd o wahanol faint fel a ganlyn:"

### **Camau gweithredu a strategaeth hirdymor 9.5, 10.5 ac 11.5**

Awgrymw'n ychwanegu'r canlynol o dan 9.5, 10.5 ac 11.5:

"c) Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried ardaloedd â blaenoriaeth, mannau tawel dynodedig a mannau llonydd trefol eraill wrth benderfynu ar drwyddedau ar gyfer safleoedd diwydiannol."